



Beth **nesaf**?

Os ydych chi eisoes wedi gwneud cais neu'n ystyried gwneud cais i brifysgol neu goleg eleni, gallwch ymchwilio i'ch opsiynau. Dyma ganllaw i'ch helpu.




Darganfod | **Discover**
Prifysgol | **Uni**

Gwneud eich gwaith ymchwil

Dyma rai pethau y gallwch chi edrych arny'n nhw wrth benderfynu beth i'w astudio ac ymhle. Mae'n syniad da meddwl yn gyntaf am yr hyn sy'n bwysig i chi a chael hyd i wybodaeth yn gysylltiedig â hynny.

- Dewiswch bwnc neu gyfuniad o bynciau sydd o ddiddordeb i chi.
- Edrychwch ar fanylion y cyrsiau rydych chi'n eu hystyried, fel y modiwlau sy'n cael eu cynnig.
- Meddyliwch am yr hyn rydych chi am ei gael o'ch cwrs. Ennill sgiliau newydd, astudio pwnc sydd wrth fodd eich calon, neu rywbeth arall?
- Ystyriwch a ydych chi eisiau astudio gartref neu symud i ffwrdd. Meddyliwch hefyd am y math o le yr hoffech chi fyw ynddo, ac a ydych chi eisiau astudio'n rhan-amser neu'n amser llawn.
- Gwiriwch y gofynion mynediad ar gyfer y cyrsiau sy'n mynd â'ch bryd. Bydd prifysgolion a cholegau yn gosod eu gofynion eu hunain, felly gallai'r rhain fod yn wahanol yn dibynnu ar y sefydliad yr ydych chi'n gwneud cais iddo.
- Gwnewch yn siŵr y byddwch chi'n gwirio dull y sefydliad o gyflwyno'r cwrs. A fydd y cwrs yn cael ei gyflwyno ar-lein neu wyneb yn wyneb? Cadwch olwg ar wefan y sefydliad i gael y newyddion diweddaraf am y dull o gyflwyno'r cwrs.

- Ystyriwch a ydych chi am wneud cwrs sy'n cynnwys elfen ymarferol, fel lleoliad neu interniaeth. A yw hyn yn bwysig i chi?
- Meddyliwch am opsiynau eraill, fel prentisiaethau uwch neu brentisiaethau gradd. Cewch ragor o wybodaeth am brentisiaethau ar [Darganfod Prifysgol](#). Cofiwch y gallwch hefyd wneud cais am brentisiaethau ar yr un pryd ag yr ydych yn ymgeisio am gwrs gradd.



Sut i ymchwilio i opsiynau

Mae'n bwysig eich bod yn ymchwilio'n drylwyr eleni i'ch opsiynau o ran prifysgol neu goleg, a bydd angen i chi edrych ar ystod o ffactorau. Gallech chi ddefnyddio tabl fel hyn i'ch helpu i weld pa brifysgol neu gwrs a all gynnig y pethau sydd yn fwyaf pwysig i chi.

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Ac ati.
Gofynion mynediad A ydyn nhw'n cyd-fynd â'ch graddau gwirioneddol neu raddau a ragfynegwyd? Cofiwch ystyried opsiynau gwahanol – beth am gynnwys rhai cyrsiau sy'n uwch na'ch graddau, rhai sy'n cyfateb ac un sy'n is fel dewis wrth gefn.	BBB – cyd-fynd	AAB – uwch na'r hyn a ragfynegwyd	
Cynnwys y cwrs A yw pwnc a chynnwys y cwrs yn cyd-fynd â'ch diddordebau a'ch dyheadau gyrfa posibl?			
Profiad gwaith A yw'r brifysgol neu'r coleg yn cynnig lleoliadau neu gyfleoedd interniaeth? Sut fydd y pandemig yn effeithio ar y cyfleoedd hyn?		Blynnyddoedd rhyngosod wedi'u gohirio	
Asesu Sut fydd y cwrs yn cael ei asesu? Ystyriwch a yw'n well gennych arholiadau neu waith cwrs a gwiriwch sut mae modiwlau'n cael eu hasesu.	Dim arholiadau	Cymysgedd o arholiadau a gwaith cwrs	

	Opsiwn 1	Opsiwn 2	Ac ati.
Dulliau cyflwyno Sut mae'r cwrs yn cael ei addysgu nawr? A yw'r cwrs yn cael ei addysgu ar-lein, wyneb yn wyneb, neu'n gymysgedd o'r ddau? Am ba hyd y bydd unrhyw newidiadau i'r dulliau addysgu yn para – am y tymor cyntaf yn unig, neu'r flwyddyn gyntaf gyfan? Pa ddulliau addysgu fyddai'n gweddu orau i'ch hoff arddull ddysgu?	<i>Ar-lein i gyd</i>		
Lleoliad Ble mae'r cwrs wedi'i leoli? Ystyriwch a ydych chi am fod yn agosach at adref neu ymhellach i ffwrdd, a pha fath o gampws yr hoffech ei fynychu.	<i>Taith tair awr mewn trên</i>		
Ffioedd a chostau A oes unrhyw gostau ychwanegol y gallai fod yn rhaid i chi eu talu am y cwrs, megis ar gyfer deunyddiau neu deithiau maes?		<i>£200 ar gyfer taith maes yn y flwyddyn gyntaf</i>	
Cymorth ariannol Are there any scholarships or bursaries available for the course?			
Cymorth ychwanegol A yw'r brifysgol neu'r coleg yn darparu unrhyw gymorth ychwanegol y gallai fod ei angen arnoch? Er enghraifft, os oes gennych anabledd, sut fydd y brifysgol yn sicrhau bod y cwrs yn hygyrch ar eich cyfer? Neu os ydych yn gadael gofal neu wedi ymddieithrio o'ch teulu, a yw'r brifysgol yn gallu cynnig llety drwy gydol y flwyddyn?	<i>Llety hygyrch gwarantedig yn y flwyddyn gyntaf</i>		

Gwneud cais

Os ydych chi eisoes wedi ymgeisio am le mewn prifysgol neu goleg, dylech dderbyn ymateb erbyn 20 Mai. Dylech ymateb i unrhyw gynnig drwy wefan UCAS erbyn 10 Mehefin. Bydd gennych tan 30 Mehefin i ymgeisio am gyrsiau a chanddynt leoedd ar ôl. Dylech wirio [UCAS](#) am ragor o wybodaeth ynghylch pa gyrsiau sydd ar gael.

Bydd ceisiadau ar ôl 30 Mehefin yn cael eu cynnwys yn y Broses Glirio. Clirio yw'r broses a ddefnyddir gan brifysgolion a cholegau i lenwi unrhyw leoedd sydd ar ôl.

Eleni, bydd y Broses Glirio yn cael ei chynnal o 5 Gorffennaf hyd 19 Hydref. Gallwch wneud cais am gwrs drwy'r Broses Glirio os nad oes gennych chi gynnig, neu os nad ydych chi am dderbyn unrhyw gynnig yr ydych wedi'i gael gan brifysgol neu goleg.

Edrychwch ar wefan [UCAS](#) am ragor o wybodaeth am y Broses Glirio a'r dull o'i defnyddio.

Sylwch y gallai dyddiadau cau ar gyfer ymgeisio, gwneud cynigion a threfniadau Clirio newid eleni oherwydd y pandemig. Cadwch olwg ar [Darganfod Prifysgol](#) am y newyddion diweddaraf.

Cyn ichi ymgeisio, cofiwch edrych yn ofalus ar wybodaeth y cwrs a'r gofynion mynediad ar wefan y brifysgol neu'r coleg. Gallai'r rhain gyfeirio at yr hyn y maen nhw'n chwilio amdano yn eich cais a'ch datganiad personol.

Ar ôl ichi wneud cais

Bydd prifysgolion a cholegau yn ymateb i'ch cais. Gallai hyn olygu eich gwahodd i gyfweiliad neu gynnig lle. Bydd pob prifysgol a choleg yn gwneud eu penderfyniadau ar wahanol adegau, felly efallai y byddwch chi'n cael gwybod eu penderfyniad cyn neu ar ôl eich ffrindiau.

Cewch dynnu eich cais yn ôl neu wneud newidiadau iddo naill ai ar Offeryn Track UCAS neu drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r brifysgol neu'r coleg.

Tynnu nôl neu ohirio

Os nad ydych am wneud cais i addysg uwch bellach, gallwch ganslo'ch cais drwy [Track](#). Dylech gofio na fyddwch yn gallu cael ad-daliad oni bai bod eich cais wedi'i ganslo o fewn 14 diwrnod iddo gael ei gyflwyno i UCAS.

Os ydych am ohirio'ch lle neu os oeddech wedi gwneud cais yn wreiddiol am fynediad gohiriedig ac nad ydych chi eisiau gohirio mwyach, bydd angen i chi wirio gyda'r brifysgol neu'r coleg o'ch dewis am wybodaeth ynglŷn â'i phroses/broses ohirio.

Gallwch hefyd dynnu'ch cais nôl yn llwyr a gwneud cais i brifysgol neu goleg y flwyddyn nesaf, ond cofiwch nad oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn cael cynnig neu le bryd hynny.

Mae'n bwysig eich bod yn ystyried yn ofalus cyn eich bod yn gwneud penderfyniad i ohirio. Ystyriwch yr hyn y byddech yn ei wneud yn ystod y flwyddyn sydd i ddod ac efallai bod llai o gyfleoedd ar gyfer cyflogaeth neu i deithio yn ystod eich blwyddyn i ffwrdd eleni.

Rwy'n poeni am golli ochr gymdeithasol y brifysgol, ac na fydda i'n cael profi Wythnos y Glas

Rydyn ni'n dysgu ffyrdd newydd o gymdeithasu dros y rhyngwrwd a thrwy ddefnyddio mesurau pellter cymdeithasol

Rwy'n poeni am gael mynediad i gymorth ariannol

Gallwn i ddefnyddio'r flwyddyn i weithio

Efallai y bydd cyfleoedd cyflogaeth yn brin, gyda mwy o bobl yn ymgeisio am lai o swyddi

Gallwn i ddefnyddio'r flwyddyn i deithio

Bu rhai newidiadau i fynediad myfyrwyr yr UE at gyllid eleni, ond mae gwytodaeth a chefnogaeth ar gael yn gysylltiedig â hyn

Rwy'n poeni am fyw oddi cartref yn ystod y cyfnod anodd yma

Gallech chi chwilio am brifysgol sy'n nes at adref

Efallai y bydd y cyfyngiadau teithio yn parhau am gryn amser

Rwyf wedi ystyried fy holl opsiynau ac wedi penderfynu gohirio eleni

Os ydych chi wedi ystyried eich holl opsiynau, a bod eich prifysgol neu goleg yn caniatáu ichi ohirio, mae hynny'n iawn!

Rwy'n poeni y byddaf yn teimlo'n ynysig lle bynnag y byddaf yn astudio

Mae'n naturiol iawn ichi boeni ar hyn o bryd, ond gallai'r rheolau pellter cymdeithasol newid, a bydd prifysgolion a cholegau'n addasu i gyd-fynd â hynny

Mae'r pandemig wedi cael effaith niweidiol ar fy iechyd meddwl, a dydw i ddim yn teimlo'n emosiynol barod i fynd i'r brifysgol neu'r coleg eleni

Rwyf eisiau symud i lety myfyrwyr a chwrdd â phobl newydd

Efallai y byddwch yn dal i allu symud i mewn i'ch llety eleni, hyd yn oed os na fydd hynny'n digwydd yn syth ar ddechrau'r tymor

Mae hynny'n iawn - eich penderfyniad chi yw hynny - edrychwch ar eich ôl eich hun, ac ewch i'r brifysgol neu'r coleg ar yr adeg sy'n iawn i chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn holi'r brifysgol neu'r coleg yr ydych wedi ymgeisio am le ynddi/ynddo ynghylch y polisi gohirio

Beth os ceir achosion o COVID-19 yn fy mhrifysgol neu goleg?

Bydd y brifysgol neu'r coleg yr ydych wedi gwneud cais am le ynddi/ynddo wedi cynllunio'r hyn i'w wneud i sicrhau eich bod yn ddiogel ac yn cael cefnogaeth os bydd achosion yn codi

Wrth ichi ddisgwyl am eich canlyniadau

1. Gwiriwch gynlluniau eich prifysgol neu goleg ar gyfer y flwyddyn nesaf

Mae'n bwysig iawn ichi wirio a yw'r brifysgol neu'r coleg a ddewiswyd gennych yn bwriadu newid ei ddull o gyflwyno cyrsiau yr ydych wedi ymgeisio amdanynt neu'n eu hystyried. Gallai cyrsiau sydd i fod i gychwyn yn nhymor yr hydref 2021 gynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar-lein, yn enwedig yn y tymor cyntaf. Gallai dyddiadau dechrau a chynnwys cyrsiau hefyd newid.

Edrychwch ar wefan y brifysgol neu'r coleg, a gwnewch yn siŵr eich bod chi'n chwilio am wybodaeth am eich cyfadran, eich maes pwnc a'ch cwrs penodol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd gwaith labordy neu leoliadau gwaith yn cael eu gohirio tan yn hwyrach yn y flwyddyn, eu cyflwyno mewn ffordd wahanol (ee, drwy ddysgu mewn grŵp bach), neu hyd yn oed eu gohirio tan y flwyddyn ganlynol.

2. Byddwch yn barod am y Broses Glirio

P'un a ydych yn bwriadu defnyddio'r Broses Glirio ai peidio, mae'n syniad da edrych ar brifysgolion a chyrsiau eraill fel opsiynau wrth gefn, rhag ichi fethu ennill y graddau sydd eu hangen arnoch, neu rhag ichi gael graddau uwch na'r disgwyl.

Lluniwch restr fer o gyrsiau eraill posibl a allai fod o ddiddordeb i chi.

3. Edrychwch o gwmpas

Mae llawer o brifysgolion a cholegau yn cynnig teithiau rhithiol o amgylch y campws ar eu gwefannau. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer ddiwrnodiau agored rhithiol a thrafodaethau ar-lein. Mae UCAS yn cadw rhestr o ddigwyddiadau rhithiol ar [ei wefan](#).

4. Sicrhewch fod cefnogaeth ar gael

Os oes gennych anghenion neilltuol, dywedwch wrth y prifysgolion neu'r colegau yr ydych wedi ymgeisio am le ynddynt. Er enghraifft, os ydych chi wedi gadael gofal neu fod gennych anabledd, chwiliwch am gefnogaeth ar eu gwefannau a gofyn beth y gallant ei gynnig ichi.

5. Siaradwch â myfyrwyr eraill

Mae siarad â myfyrwyr presennol yn ffordd wych i gael darlun go iawn o fywyd yn y brifysgol ar hyn o bryd, ac o'r modd y mae eich prifysgol neu goleg yn addasu i'r pandemig.

Cofrestrwch ar [Unibuddy](#) a [The Student Room](#) i gysylltu â myfyrwyr eraill fel chi. Efallai y bydd eich prifysgol neu goleg hefyd yn cynnwys gwybodaeth gan fyfyrwyr cyfredol ar eu gwefannau neu yn y cyfryngau cymdeithasol.

Gallwch hefyd chwilio am wybodaeth am y cwrs ar [Darganfod Prifysgol](#) - mae'n cynnwys arolygon gan fyfyrwyr sydd wedi cwblhau'r cwrs a gwybodaeth am yr hyn y maen nhw wedi bod yn gwneud ers hynny. Edrychwch ar ein [fideo byr](#) i'ch helpu i ddeall yr ystadegau sydd ar gael drwy Darganfod Prifysgol.

Lle i gael gwybodaeth

- Edrychwch am wybodaeth ar wefan eich prifysgol neu goleg. Dyna eich man cychwyn ar gyfer unrhyw wybodaeth, o gynnwys y cwrs hyd at drefniadau llety.
- Gallwch chwilio am gyrsiau, eu cadw a'u cymharu ar wefan Darganfod Prifysgol.
- Gall [Prospects](#) neu [What Uni](#) eich helpu i feddwl am syniadau yn seiliedig ar eich cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau eraill Lefel 3, os ydych chi am ystyried eich opsiynau ar gyfer Clirio.

Pryd y byddwch yn cael eich canlyniadau

Bydd canlyniadau'r Fagloriaeth Ryngwladol yn cael eu rhyddhau ar 5 Gorffennaf 2021.

Bydd canlyniadau Safon Uwch yng Nghymru yn cael eu rhyddhau ar 9 Awst 2021.

Daw canlyniadau Safon Uwch yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu rhyddhau ar 10 Awst 2021.

Bydd canlyniadau'r SQA (Yr Alban) yn cael eu rhyddhau ar 10 Awst 2021.

Mae'r dyddiadau ar gyfer canlyniadau BTEC yn amrywio.

Holwch eich ysgol neu goleg, cysylltu â chorff cymwysterau eich gwlad (a restrir yn yr A-Y ar ddiwedd y canllaw hwn), neu edrych ar wefan UCAS am wybodaeth am ganlyniadau eraill.

1. Eich cais

Os ydych chi wedi ymgeisio drwy UCAS, bydd eich cais yn parhau i fynd drwy'r broses dderbyniadau yn ôl yr arfer. Bydd UCAS yn dal i dderbyn eich graddau ac yn eu trosglwyddo i'ch prifysgolion.

Os ydych chi'n gwneud cais fel ymgeisydd preifat (hy, ddim drwy UCAS), bydd angen ichi holi'r prifysgolion neu'r colegau yr ydych chi wedi ymgeisio am le ynddynt ynghylch eu prosesau derbyn.

Os ydych chi'n gwneud cais fel ymgeisydd preifat Safon Uwch (hy, eich bod yn eich addysgu eich hun ac nad oeddech ond yn sefyll eich arholiadau Safon Uwch mewn canolfan), dylai eich canolfan fod wedi cyflwyno eich asesiadau bellach. Gofynnwyd i brifysgolion a cholegau fod yn hyblyg wrth dderbyn ymgeiswyr preifat, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â nhw ac yn edrych ar eu gwefannau.

2. Eich canlyniadau

Os byddwch yn derbyn y graddau sydd eu hangen arnoch i fynd i brifysgol neu goleg sydd wrth eich bodd, llongyfarchiadau! Cofiwch barhau i wirio'r wybodaeth ar wefannau'r llywodraeth sydd wedi'u rhestru yn adran olaf yr adnodd hwn am y newyddion diweddaraf am ganlyniadau (gweler tudalen 14).

3. Os ydych chi heb ymgeisio eto, neu heb gael lle

Os ydych chi heb ymgeisio eto, neu heb gael unrhyw gynigion, gallwch ymgeisio drwy'r Broses Glirio.

Bryd hynny bydd unrhyw ymchwil yr ydych chi wedi'i wneud yn ddefnyddiol oherwydd efallai y bydd gennych rai prifysgolion, colegau a chysiau mewn golwg yr hoffech wneud cais amdanynt.

4. Os yw eich canlyniadau'n well na'r disgwyl

Byddwch yn cael cyfle i ailystyried eich opsiynau os byddwch yn ennill graddau gwell na'r hyn a amcanwyd.

Gallwch gofrestru ar gyfer y broses Addasu drwy eich cyfrif Track. Gwnewch yn siŵr eich bod yn trafod Addasu ag unrhyw brifysgolion y mae gennych ddi-ddordeb ynddynt, i weld a oes digon o le ichi ar y cwrs.

5. Os ydych chi wedi newid eich meddwl

Os ydych chi wedi cael cynnig ond wedi newid eich meddwl, gallwch eich rhyddhau eich hun o'r dewis hwn a chael eich cynnwys yn awtomatig yn y broses Glirio. Meddyliwch yn ofalus cyn gwneud hyn, a gwnewch yn siŵr eich bod wedi gwneud digonedd o waith ymchwil, oherwydd byddwch yn colli eich lle ar ôl eich rhyddhau eich hun i'r broses Glirio.

Eich hawliau

Er mwyn eich helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â derbyn cynnig am le ar gwrs, mae'n ofynnol o dan [ddeddfwriaeth diogelu defnyddwyr](#) i brifysgolion a cholegau sicrhau bod gwybodaeth benodol ar gael i chi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gostau, cwynion, telerau ac amodau a'ch hawl i ganslo'r contract sydd gennych gyda'r brifysgol neu'r coleg. Os ydych yn gwneud cais i brifysgol neu goleg yn Lloegr, mae'r Swyddfa Myfyrwyr wedi [cyhoeddi canllawiau](#) sy'n nodi y dylai eich prifysgol neu goleg wneud y canlynol:

- dweud wrthych ynglŷn ag unrhyw newidiadau i'r cwrs, er enghraifft, p'un a fyddant yn cael eu haddysgu ar-lein neu ar y campws
- rhoi gwybod i chi a allai'r drefn addysgu ar gyrsiau newid o ganlyniad i gyngor ynghylch iechyd y cyhoedd
- rhoi eu telerau ac amodau i chi
- sicrhau bod eu gweithdrefn gwynion yn hygyrch, yn glir ac yn deg, a rhoi gwybod i chi ble y gallwch ddod o hyd iddi.

Dylen nhw roi'r holl wybodaeth hyn i chi cyn i leoedd gael eu cadarnhau ym mis Awst.

Os ydych yn gwneud cais i brifysgol neu goleg yng Nghymru, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn disgwyl bod prifysgolion yn sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at wybodaeth glir a chyfredol, sy'n seiliedig ar yr hyn sy'n hysbys ar y pryd. Lle mae prifysgolion wedi gwneud penderfyniadau ynghylch cyflwyno rhan o'r flwyddyn academaidd, ond nid y flwyddyn gyfan, dylent ddarparu gwybodaeth

am y penderfyniadau a wnaed hyd yn hyn, a'r amserlenni y bydd gwybodaeth am weddill y flwyddyn academaidd ar gael. Mae'n rhaid i brosesau cwynion barhau i fod yn hygyrch, yn dryloyw ac yn deg, ac mae'n rhaid i brifysgolion ddarparu gwybodaeth glir am sut y gall myfyrwyr uwchgyfeirio unrhyw faterion, gan gynnwys drwy gysylltu â Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Os nad ydych yn credu bod eich prifysgol neu goleg wedi rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i wneud dewis gwybodus, mae rhai camau y gallwch eu cymryd:

- Cyflwynwch gŵyn i'r brifysgol neu'r coleg drwy ei gweithdrefn/ weithdrefn gwynion.
- Os ydych yn Lloegr, gallwch hysbysu'r [Swyddfa Myfyrwyr](#). Cofiwch mai dim ond i chwilio am batrymau ymddygiad mewn prifysgolion y bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio, ac nid i gymryd camau pellach ynglŷn â'ch achos unigol.
- Os ydych yng Nghymru neu Loegr, efallai y byddwch yn gallu cyflwyno cwyn i [Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol](#).
- Os ydych yng Ngogledd Iwerddon, efallai y byddwch yn gallu cyflwyno cwyn i [Ombwdsmon Gogledd Iwerddon](#).
- Os ydych yn yr Alban, efallai y byddwch yn gallu cyflwyno cwyn i [Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban](#).
- Os ydych yn credu bod y brifysgol neu'r coleg wedi torri cyfraith diogelu defnyddwyr, gallwch adrodd ynglŷn â'i hymddygiad/ ymddygiad i'r [Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd](#).

Gwybodaeth i fyfyrwyr rhyngwladol

Ceir cyfyngiadau ar deithio i'r DU ar hyn o bryd oherwydd y pandemig. I wybod rhagor am y cyfyngiadau hyn, edrychwch ar adran adnoddau'r canllaw hwn.

Os ydych chi'n ddinesydd o'r UE, o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu o'r Swistir sy'n ymgeisio am addysg uwch yn y DU a fydd yn dechrau ar ôl 31 Gorffennaf 2021, mae'r rheolau ynghylch mynediad at gyllid myfyrwyr wedi newid. Edrychwch yn yr adran adnoddau neu ar y dudalen Darganfod Prifysgol hon am ragor o wybodaeth.

Dyma rai adnoddau defnyddiol fydd o gymorth ichi os ydych chi'n fyfyrwr rhyngwladol.

- [The British Council](#)
- [Cyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y DU](#)

Os ydych chi'n gwneud cais am gwrs addysg uwch yn y DU, bydd angen ichi edrych ar y modd y mae'r brifysgol neu'r coleg sydd o ddiddordeb ichi yn bwriadu cyflwyno'r cwrs, a phryd bydd y tymor yn dechrau. Bydd rhai prifysgolion wedi oedi'r dyddiadau dechrau, neu'n gweithredu amryw o ddyddiadau dechrau, neu'n addysgu ar-lein yn unig am yr ychydig wythnosau cyntaf. Peidiwch â rhuthro i wneud trefniadau teithio, oherwydd efallai y bydd modd i chi gwblhau rhan gyntaf eich cwrs gartref.

Pan fyddwch chi'n gallu teithio i'r DU, efallai y byddwch yn canfod bod angen ichi dreulio cyfnod mewn cwarantin. Gwnewch yn siŵr eich bod yn parhau i wirio [gwefan Llywodraeth y DU](#) am wybodaeth am reoliadau teithio a cwarantin.

Bydd tîm cymorth myfyrwyr eich prifysgol neu goleg yn gallu darparu gwybodaeth am eu mesurau neu bolisiau pellter cymdeithasol penodol nhw. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â nhw cyn cychwyn ar eich taith ac yn rhoi gwybod iddynt pryd rydych yn bwriadu cyrraedd.

A-Y o adnoddau

Opsiynau ymchwil

Darganfod Prifysgol: <https://discoveruni.gov.uk/cy/>

Prospects: <https://www.prospects.ac.uk/>

The Student Room: <https://www.thestudentroom.co.uk/>

UCAS: <https://www.ucas.com/>

Unibuddy: <https://www.ucas.com/chat-to-students>

What Uni: www.whatuni.com

Gwybodaeth am gymwysterau

Yr Alban: <https://www.sqa.org.uk/sqa/96763.html>

Cymru: <https://llyw.cymru/canllawiau-arholiadau-ac-asesu-2020-i-2021>

Gogledd Iwerddon: <https://ccea.org.uk/summer-2021>

Lloegr: <https://www.gov.uk/government/publications/awarding-qualifications-in-summer-2021/awarding-qualifications-in-summer-2021>

Gwybodaeth gan lywodraethau

Gwybodaeth Llywodraeth y DU am y Coronafeirws: <https://www.gov.uk/coronavirus>

Cymorth coronafeirws Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr addysg uwch: <https://llyw.cymru/addysg-uwch-coronafeirws-canllaw>

Gwybodaeth Llywodraeth yr Alban am y coronafeirws i fyfyrwyr: <https://www.studentinformation.gov.scot/>

Gwybodaeth Llywodraeth Gogledd Iwerddon am y coronafeirws i fyfyrwyr: <https://www.nidirect.gov.uk/articles/coronavirus-covid-19-advice-schools-colleges-and-universities>

Diogelu defnyddwyr

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd: <https://www.gov.uk/government/organisations/competition-and-markets-authority>

Cyngor ar gyfraith diogelu defnyddwyr i ddarparwyr addysg uwch a myfyrwyr: <https://www.gov.uk/government/publications/higher-education-guide-to-consumer-rights-for-students>

Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol: <https://www.oiahe.org.uk/>

Cyflwyno hysbysiad i'r Swyddfa Fyfyrwyr: <https://www.officeforstudents.org.uk/for-students/notifications/>

Ombwdsmon Gogledd Iwerddon: <https://nipso.org.uk/>

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yr Alban: <https://www.spsso.org.uk/>